



10 egwyddor “Gofyn a Gweithredu”

1

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn galw am ymateb gan y Gwasanaeth Cyhoeddus. Mae'n hanfodol bod hyder gan weithwyr proffesiynol yn eu gallu i adnabod y problemau hyn, i holi amdanynt ac i ymateb yn effeithiol iddynt er mwyn sicrhau ymarfer da ar draws yr awdurdodau perthnasol.

2

Mae'n bwysig bod y rheini sy'n datgelu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn adlewyrchu'r amrywiaeth ym mhoblogaeth yr ardal.

3

Mae gan y Gwasanaeth Cyhoeddus ran bwysig i'w chwarae mewn ymateb i'r problemau hyn, drwy gefnogi cleientiaid a chryfhau'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn. Mae angen dull mwy cyson ledled Cymru ar gyfer adnabod y rhai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, asesu risg ac atgyfeirio'n briodol.

4

Ni fydd cleientiaid bob amser yn rhoi gwybod i weithwyr proffesiynol am eu profiad heb gael eu cymell i wneud hynny. Rôl y gweithiwr proffesiynol yw ystyried a fyddai'n briodol gofyn cwestiynau uniongyrchol a sensitif mewn amgylchedd diogel, cyfrinachol.

5

Mae angen egluro i gleientiaid sut y bydd eu cyfrinachedd yn cael ei drin.

6

Er nad yw'n broses croesholi, nid ymyriad untro yw “Gofyn a Gweithredu”. Mae pob cwestiwn yn gyfle i gynnig cymorth. Dylai'r broses o holi wedi'i dargedu gynnwys camau dilynol gyda dioddefwyr ar ôl adnabod dangosyddion ac ailofyn cwestiynau.

7

Mae cynnal sgwrs â'r cleient yn well na defnyddio offeryn sgrinio. Byddai cwestiwn cyffredinol am brofiad rhywun o gam-drin yn gallu arwain at ddatgelu nifer o fathau o gam-drin.

8

Dylai partneriaethau rhwng darparwyr Gwasanaeth Cyhoeddus a darparwyr arbenigol lleol gael eu rhoi ar sylfaen gadarn er mwyn darparu polisi ac ymarfer mewn ffordd fwy cynhwysfawr.

9

Wrth roi'r broses “Gofyn a Gweithredu” ar waith, rhaid darparu hyfforddiant ac arweinyddiaeth ar gyfer hynny.

10

Os collir cyfleoedd i adnabod achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, collir cyfleoedd i atal cam-drin pellach, adnabod risg i blant, ac achub bywydau.